

Patrwm cyflwyno Hydref – Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Y modiwl hwn yw'r modiwl lefel 2 (SCQF lefel 8) gorfodol ar gyfer gradd (Q94) BA (Anrh) Astudiaethau Addysg (Cynradd) a Diploma Addysg Uwch mewn Astudiaethau Addysg (Cynradd) (W54). Mae ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn addysg gynradd, ar gyfer y rhai hynny sydd am fod yn athrawon ysgolion cynradd, neu sydd am ddilyn gyrfaedd eraill ym maes addysg. Mae E209 yn fodiwl opsiynol yng ngradd (Q89) BA (Anrh) Astudiaethau Addysg (Cynradd) ac yn y Diploma Addysg Uwch yn y Blynyddoedd Cynnar (W50) ac mae'n briodol ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar sydd â diddordeb mewn trawsnewidiadau plant, sydd am ddatblygu gwybodaeth pwnc eu hunain.

Bydd myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ymhellach o ran helpu plant ysgolion cynradd i ddysgu mathemateg, iaith a llythrennedd, gwyddoniaeth a chyfrifiadura a TGCh drwy ddatblygu gwybodaeth eu hunain yn y pynciau hyn. Byddant yn nodi ac yn myfyrio yn feiriadol ar eu gwybodaeth pwnc eu hunain, ac agweddau, profiadau a safbwyntiau perthnasol ac ystyried y goblygiadau ar gyfer ymarfer. Byddant yn gwerthuso ac yn dadansoddi effaith bosibl mwy o wybodaeth pwnc ar eu dysgu a dysgu plant. Bydd myfyrwyr yn archwilio'r cwricwlwm yn eu lleoliad, sut y caiff ei gynllunio a'i weithredu; archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu plant ac archwilio rôl gwybodaeth pwnc mewn fframweithiau cwricwlwm sefydledig.

Os nad ydynt eisoes yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn lleoliad ymarfer, anogir myfyrwyr i drefnu mynediad yn ystod y modiwl (awgrymir o leiaf 10 diwrnod). Mae hwn yn fodiwl sy'n canolbwyntio ar ymarfer, yn hytrach na modiwl sy'n seiliedig ar waith. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw ofynion na chymorth gan Y Brifysgol Agored (gan gynnwys y tiwtor) ar gyfer sefydlu trefniadau mentora ffurfiol yn yr ysgol.

Bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau academaidd a phroffesiynol gan gynnwys:

- gwerthuso a chyfathrebu gwybodaeth ag eraill yn effeithiol,
- defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol ar gyfer astudio, cydweithredu ar-lein ac i gefnogi,
- eu datblygiad proffesiynol parhaus,
- cynllunio a rheoli amser a thasgau a gweithio o fewn terfynau amser,
- nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, a cheisio adborth a dysgu ohono.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd yn un o'r canlynol: Astudiaethau Addysg, Blynyddoedd Cynnar neu bwnc cwricwlwm cynradd
- statws athro cymwysedig neu brofiad fel athro ysgol gynradd neu addysgwr athrawon
- dealltwriaeth eang o wybodaeth am bynciau cynradd yn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a chyfrifiadura a TGCh a sut i'w dysgu'n effeithiol
- profiad o weithio ochr yn ochr â chynorthwywyr addysgu, gwirfoddolwyr a/neu staff cymorth dysgu tebyg
- profiad o asesu a rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol ar aseiniadau a gynhyrchir gan ddysgwyr sy'n oedolion
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddefnyddio tiwtorialau ar-lein ac i'w helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer astudio ar-lein yn effeithiol
- ymwybyddiaeth o'r cwricwla gwahanol mewn gwledydd gwahanol.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o weithio gydag eraill er mwyn darparu gwersi

Gwybodaeth ychwanegol

Yn ogystal â deunydd astudio argraffedig traddodiadol, mae E209 yn cynnwys swm sylweddol o astudio ar-lein. Mae'r holl diwtorialau ar-lein. Disgwylir i diwtoriaid fod yn rhagweithiol wrth helpu eu myfyrwyr i ddod yn hyderus ac yn effeithiol yn eu hymgysylltiad ar-lein. Disgwylir i diwtoriaid helpu myfyrwyr yn y ffyrdd canlynol yn rheolaidd:

- dechrau a chefnogi llinynnau trafod ar-lein rheolaidd, cymedroli/addysgu ar fforwm grŵp tiwtor eich myfyrwyr
- cynnwys gweithgareddau tiwtorialau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ymgysylltu ag amrywiaeth o nodweddion ar-lein y modiwl, ac ymateb i unrhyw anawsterau y gall myfyrwyr eu hwynebu â rhain
- sefydlu a datrys problemau e-grwpiau bach o fewn eich grŵp tiwtor (ond nid eu cymedroli)
- cysylltu â myfyrwyr unigol drwy e-bost yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, ag aelodau o dîm canolog y modiwl a'ch rheolwr clwstwr.

Bydd hyfforddiant ar y modiwl hwn yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm o ddarlithwyr cyswllt mewn grŵp clwstwr. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cydweithredol, yn rhannu tasgau hyfforddi ar gyfer tiwtorialau ar-lein. Disgwylir i chi fynd i'r Fforwm Tiwtor yn rheolaidd.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.